

Rhif: WG25902



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynigion sy'n ymwneud â Rheoliadau Paneli Cynllunio Strategol: Cyfansoddiad a Materion Ariannol

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Tachwedd 2015

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar gynigion ar gyfer cyfansoddiad a materion ariannol sy'n ymwneud â Phaneli Cynllunio Strategol.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 2 Tachwedd 2015. Gallwch chi ymateb yn y ffyrdd canlynol:

**e-bost** Llenwch y ffurflen ymgynghori yn Atodiad D a'i hanfon at:

[planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk](mailto:planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk)

**post** Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad D a'i hanfon at:

Ymgynghori cynllunio strategol  
Cangen Datblygu Cynlluniau  
Cyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

<http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=11271>

## Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Gemma Christian  
Cangen y Cynlluniau Datblygu  
Cyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ.

e-bost: [planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk](mailto:planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk)  
ffôn: 02920826657

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## **Cynnwys**

- 1. Diben yr ymgynghoriad hwn**
  - 2. Cyfansoddiad Paneli**
  - 3. Materion Ariannol**
  - 4. Camau Nesaf**
- **Cyfeiriadau**
  - **Atodiad A - Data a Thueddiadau**
  - **Atodiad B - Enghreifftiau o wahanol ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar gyrff cyhoeddus**
  - **Atodiad C - Gwaith modelu**
  - **Atodiad D - Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

## 1. Diben yr Ymgynghoriad

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y cynigion a nodir yn y papur hwn ynghylch cyfansoddiad rhyw paneli cynllunio strategol yn y dyfodol a materion ariannol sy'n ymwneud â'r paneli. Mae Atodlen 1 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â chyfansoddiad rhyw a materion ariannol sy'n effeithio ar baneli cynllunio strategol.
- 1.2 Nid yw'r papur ymgynghori hwn yn gofyn am safbwyntiau o ran y ddarpariaeth a wneir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015.
- 1.3 Gellir gweld Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yma:  
[http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-legislation/Pages/assembly\\_acts.aspx](http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-legislation/Pages/assembly_acts.aspx)
- 1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau cronfa fwy cynrychioliadol o wneuthurwyr penderfyniadau o ran cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Tynnwyd sylw at hyn wrth graffu ar Fil Cynllunio (Cymru). Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, tynnodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol sylw at bwysigrwydd ymdrin â materion cydraddoldeb ar gyrff cyhoeddus. Fel y datganodd y Gweinidog wrth ymddangos ger bron Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 5<sup>ed</sup> Mai 2015, "Members will know that I'm impatient for change and passionate about equality issues. It cannot be right in 2015 that we don't have equality of representation on all public bodies."<sup>1</sup>

### Cynllunio Strategol

- 1.5 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac yn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a gaiff eu llunio gan Banel Cynllunio Strategol (Panel). Bydd Panel yn gorff cyhoeddus a bydd ganddo un swyddogaeth - llunio cynlluniau. Bydd ganddo statws corff corfforaethol a bydd yn cynnwys aelodau awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) ac aelodau enwebedig o grwpiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dim ond aelodau'r awdurdodau cynllunio lleol fydd â hawliau pleidleisio. Lle mai awdurdod lleol yw'r ACLI, mae'r aelodau cymwys fel y'u nodir yn Atodlen 1, paragraff 3(4) a (5) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 fel a ganlyn -

---

<sup>1</sup><http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3161&language=en&assembly=4&c=Record of Proceedings&startDt=05/05/2015&endDt=05/05/2015&keyword=stage 3#214688>

- (a) each councillor representing an electoral division all of which is in the panel's strategic planning area;
- (b) any elected mayor or elected executive member within the meaning of Part 2 of the Local Government Act 2000 (see section 39(1) and (4) of that Act)

- 1.6 Lle mai awdurdod Parc Cenedlaethol neu fwrdd cynllunio ar y cyd yw'r awdurdod cynllunio lleol, bydd pob aelod o'r awdurdod neu'r bwrdd hwnnw yn aelodau cymwys.

#### *Cynlluniau Datblygu Strategol*

- 1.7 Cynllun datblygu ar gyfer ardal Cynllunio Strategol yw CDS a bydd yn ymdrin â materion gan gynnwys tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, seilwaith, mwynau a gwastraff sy'n berthnasol i nifer o awdurdodau cynllunio lleol. Bydd ymdrin â'r materion hyn yn y CDS yn sicrhau y cânt eu cynllunio mewn modd integredig a chyson. Mae'r rhain yn faterion y mae awdurdodau lleol wedi'i chael hi'n anodd ymdrin â hwy ar lefel leol wrth lunio cynlluniau datblygu lleol (CDLlau). Pennir darpariaeth tai ar gyfer CDLlau ar y lefel hon, a gall gynnwys y broses o nodi dyraniadau strategol ar gyfer defnyddiau sydd uwchlaw trothwyon penodol.

#### *Paneli Cynllunio Strategol*

- 1.8 Corff llunio cynlluniau yn unig fydd y Panel ac ni fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd yn ofynnol i'r Panel wneud penderfyniadau ar drefniadau llywodraethu'r Panel megis enwebu aelodau, cytuno ar reolau sefydlog, cyllid, penodi staff technegol ac ati. Bydd hefyd yn ofynnol i'r Panel wneud penderfyniadau ar y broses o lunio'r CDS, gan gynnwys p'un a yw CDS yn barod ar gyfer archwiliad annibynnol. Nid oes yn rhaid i'r Panel gael cytundeb yr ACLlau sy'n rhan ohono.

#### **Strwythur y Papur**

- 1.9 Rhennir y papur hwn yn ddwy brif adran. Mae'r adran gyntaf yn ymdrin â chyfansoddiad Paneli ac mae'r ail yn ymdrin â materion ariannol sy'n ymwneud â Phaneli.

## 2. Cyfansoddiad Paneli Cynllunio Strategol

### Y sefyllfa bresennol

#### *Deddf Cydraddoldeb 2010*

- 2.1 Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw priodol i'r angen i –
1. ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb;
  2. hyrwyddo cyfle cyfartal i'r grwpiau cydraddoldeb a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol); a
  3. meithrin cydberthnasau da rhwng y gwahanol grwpiau cydraddoldeb a phobl eraill.
- 2.2 Mae'r ddyletswydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i roi sylw priodol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn berthnasol i bob awdurdod cynllunio lleol a chorff cyhoeddus. Ceir gwaith ymchwil parhaus i wella amrywiaeth o fewn awdurdodau lleol sy'n cynnwys ystyried mesurau i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau. Nod y mesurau hyn, megis cynlluniau mentora, yw cynyddu nifer y menywod a fyddai'n gymwys i gael eu penodi i'r Panel o ACLlau a chyrrff cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

#### *Cynyddu nifer y menywod a gynrychiolir a'r grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol ar Gyrrff Cyhoeddus*

- 2.3 Cydnabyddir nad yw cyrrff cyhoeddus ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r gyfran o ddynion a menywod o fewn cymdeithas a bod sicrhau amrywiaeth ar gyrrff cyhoeddus yn cynyddu hygyrdd a hyder y cyhoedd mewn cyrrff cyhoeddus gan eu bod yn adlewyrchu'r bobl a wasanaethir ganddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyrrff cyhoeddus ac mae wrthi'n datblygu nifer o strategaethau a pholisïau i gyflawni'r agenda hon.
- 2.4 Diben menter Llywodraeth Cymru i ehangu cyfranogiad ar gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys y cynigion yn y papur hwn, yw sicrhau bod amrywiaeth o ran cynrychiolaeth yn arwain at amrywiaeth o ran ffordd o feddwl, syniadau newydd, safbwyntiau newydd a gwell dealltwriaeth o gymunedau. Bydd gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau ar fyrddau yn arwain at well penderfyniadau a phenderfyniadau mwy cynrychioliadol. Bydd bwrdd sy'n fwy cynrychioliadol o'r gymdeithas a wasanaethir ganddo mewn sefyllfa well i gyflawni ei gyfrifoldebau.

- 2.5 Mae un o bolisiâu Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at roi'r agenda ehangu cyfranogiad ar waith, yn cynnwys y Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol (2015) sy'n ystyried cynigion i gyflawni amrywiaeth er mwyn sicrhau bod Cynghorau yn fannau lle mae diwylliant agored yn ffynnu a lle y bydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u parchu ni waeth beth fo'u cefndir. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynllun gweithredu i sicrhau bod 40% o'r ymgeiswyr ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn fenywod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi Cynllun Gweithredu ar waith i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Adlewyrchir hyn hefyd yn Rhaglen Lywodraethu 2011 sy'n cynnwys darpariaeth i nodi camau i sicrhau cronfa fwy cynrychioliadol o wneuthurwyr penderfyniadau a Maniffesto'r Blaid Lafur 2011, sy'n cynnwys ymrwymïadau i gyflwyno cwotâu rhyw tebyg i'r rhai a geir yn Norwy ar gyfer penodiadau i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru gan sicrhau bod o leiaf 40% o'r penodiadau yn fenywod.
- 2.6 Nid oes Paneli cyfatebol hysbys yng Nghymru ac felly nid yw cyfansoddiad yr aelodau yn hysbys. Fodd bynnag, yn hanesyddol cydnabyddir y bu'n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn llywodraeth leol. Bu gan fenywod yr hawl i fod yn gynghorwyr ers 1907; fodd bynnag, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2012, dim ond 26% o'r cynghorwyr lleol yng Nghymru oedd yn fenywod, ac yn 2014, dim ond cynnydd bach a gafwyd, i 27%. Er bod statws a chyfansoddiad paneli yn unigryw, i ryw raddau, ceir nodweddion tebyg wrth lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau). Daw rhan o aelodaeth gyffredinol APC o aelodau awdurdodau lleol a benodir i'r APC gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan o ardal y parc cenedlaethol. Mae APCau hefyd yn arfer rhai swyddogaethau cynllunio penodol gan gynnwys paratoi ac adolygu cynlluniau datblygu lleol. Nodir y dystiolaeth a'r data sy'n sail i'r papur hwn ac sy'n nodi'r tueddiadau presennol yn Atodiad A ac maent yn cynnwys data am benodiadau i APCau.
- 2.7 Ceir nifer o enghreifftiau o ddulliau gweithredu yn Ewrop ac yn rhyngwladol i sicrhau bod mwy o fenywod wedi'u cynrychioli ar gyrrff cyhoeddus a nodir manylion amdanynt yn Atodiad B.
- 2.8 Defnyddir y dull gweithredu gwirfoddol megis codau llywodraethu, targedau gwirfoddol, cynlluniau cydraddoldeb a chyflwyno adroddiadau ar y targedau cydraddoldeb hyn ledled Ewrop ac yn rhyngwladol. Mae defnyddio system o gyflwyno adroddiadau yn golygu bod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus egluro pam nad ydynt wedi cyrraedd y targedau ac mewn rhai achosion, mae cosbau yn gysylltiedig â methu â chyrraedd y targedau hyn<sup>2</sup>.
- 2.9 Lle y defnyddiwyd dull deddfwriaethol mewn perthynas â chynyddu nifer y menywod a gynrychiolir ar fyrddau, arweiniodd at niferoedd

---

<sup>2</sup> Awstralia - Deddf Cydraddoldeb Rhyw yn y Gweithle 2012 ac Offeryn Cydraddoldeb Rhyw yn y Gweithle (materion sy'n ymwneud â dangosyddion cydraddoldeb rhyw) 2013 (Rhif 1) ac Offeryn Cydraddoldeb Rhyw yn y Gweithle (safonau gofynnol) 2014.

uwch o fenywod na'r rheini mewn gwledydd a ddefnyddiodd ddull gwirfoddol<sup>3</sup>. Cydnabyddir profiad Norwy fel dull llwyddiannus o sicrhau bod 40% o gyfarwyddwyr cwmnïau cyhoeddus yn fenywod ac wrth ddefnyddio system gosbi lle y gellir diddymu cwmni am fethu â chydymffurfio. Ceir cydnabyddiaeth hefyd nad yw pethau'n newid yn ddigon cyflym. Er enghraifft, bydd yn cymryd tan 2076 i fenywod gael llais cyfartal o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru os parheir â'r gyfradd cynnydd bresennol ar gyfer Cynghorwyr benywaidd<sup>4</sup>. Ystyrir bod system cwotâu yn ffordd dderbyniol o gyflawni newid mewn modd amserol, er y cydnabyddir mai ochr yn ochr â mesurau gwirfoddol eraill y gwneid hyn.

2.10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd y maent wedi'i wneud wrth gyflawni eu hamcanion llesiant.

2.11 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad Paneli gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau. Mae adrannau perthnasol y Ddeddf fel a ganlyn:

- Rhan 3, adrannau 4 i 9 - Cynllunio Strategol
- Atodlen 1, paragraff 5 - Cyfansoddiad Paneli Cynllunio Strategol

2.12 Mae'r pwerau yn:

- Caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n dynodi gofynion ynghylch y cydbwysedd rhwng y rhywiau, er enghraifft, bod angen i gyfran ofynnol o aelodau Panel awdurdod cynllunio lleol fod yn fenywod neu'n ddynion;
- Cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ACLlau gydgyssylltu eu penodiadau gan alluogi iddynt hwy a'r Panel ei hun gymryd camau i sicrhau y bodlonir gofynion y rheoliadau, o ran cyfansoddiad Paneli;
- Caniatáu eithriadau i'r gofyniad o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau, er mwyn osgoi gosod ACLlau mewn sefyllfa lle na allent benodi aelod i'r Panel os nad oedd ganddynt unrhyw aelodau etholedig a oedd yn fenywod, er enghraifft;

---

<sup>3</sup> Overcoming barriers to Equality and Diversity Representation and Public, Private and Third Sector Boards in Scotland, Y Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth, Prifysgol Napier Caeredin, 2014.

<sup>4</sup> Welsh power report, women in public life. Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru 2013



- Cynnwys pwerau i ymdrin ag achosion o fethiant i gydymffurfio â'r gofynion o ran cyfansoddiad.

### Ein cynigion

- 2.13 Fel y datganwyd yn gynharach yn y papur hwn, mae amcan Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cynigion yn seiliedig ar yr amcan fod amrywiaeth o ran cynrychiolaeth yn arwain at amrywiaeth o ran ffordd o feddwl, syniadau newydd, safbwyntiau newydd a gwell dealltwriaeth o gymunedau. Bydd gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau ar baneli cynllunio strategol yn arwain at well penderfyniadau a phenderfyniadau mwy cynrychioliadol. Bydd panel sy'n fwy cynrychioliadol o'r gymdeithas a wasanaethir ganddo mewn sefyllfa well i gyflawni ei gyfrifoldebau. Rydym yn ystyried sut y gallem ddatblygu cynigion mewn perthynas â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn aelodaeth paneli yn unol â'r pwerau sydd ar gael y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.12 uchod.

### **Y gofyniad i gynyddu nifer y menywod a gynrychiolir**

- 2.14 Rydym yn ystyried sut y gellid sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar baneli. Un dull posibl fyddai ei gwneud yn ofynnol i banel gynnwys o leiaf 40% o fenywod ac o leiaf 40% o ddynion o ran aelodau awdurdodau cynllunio lleol. Drwy bennu trothwy aelodaeth gofynnol yn ôl menywod a dynion, y nod yw cynyddu cyfranogiad mewn fforwm gwneud penderfyniadau ac o ganlyniad, bydd gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau yn arwain at safbwynt sy'n adlewyrchu'r bobl y mae'r paneli yn eu gwasanaethu wrth wneud eu penderfyniadau yn well.
- 2.15 Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu agenda Llywodraeth Cymru i sicrhau y gwneir penderfyniadau gan gyrrff sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Os pennwyd y ganran ar lefel o 50%, byddai hyn yn anos i'w chyflawni. Yn ogystal, nid yw ffigur arfaethedig o 50% yn unol ag agenda ehangach Llywodraeth Cymru sy'n anelu at bennu isafswm o 40% sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn Ewrop (Norwy) ac a adlewyrchir ym Manifesto'r Blaid Lafur a'r Rhaglen Lywodraethu.

### **Cydgysylltu penodiadau**

- 2.16 O ran cyflawni'r trothwy o 40%, byddai angen i'r ACLlau sy'n rhan o'r panel gydgysylltu eu hymdrechion. Rydym yn ystyried cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r ACLlau sy'n rhan o ardal cynllunio strategol gydweithredu er mwyn sicrhau y cyflawnir y ganran a bennir ar gyfer nifer yr aelodau sy'n fenywod ac sy'n ddynion.
- 2.17 Ni fyddai'r dull gweithredu arfaethedig yn benodedig o ran y broses ond byddai'n golygu y gallai'r ACLlau weithio mewn ffordd hyblyg i sicrhau'r canlyniad hwn.

## Eithriadau

2.18 Rydym wedi ystyried p'un a ddylid pennu amgylchiadau lle nad oes yn rhaid i ACLlau gydymffurfio â'r trothwy o 40%. Diben y trothwy yw sicrhau y cyflawnir y lefel gynrychiolaeth ofynnol o ran menywod a dynion o fewn aelodaeth paneli, yn unol â pholisi'r Llywodraeth. Rydym o'r farn mai dim ond lle y bo'n amhosibl cydymffurfio â'r gofyniad y dylid caniatáu eithriad i'r gofyniad o 40%, er enghraifft, lle nad oes digon o aelodau sy'n fenywod neu sy'n ddynion i sicrhau y gellir sefydlu Paneli neu y gallant barhau i weithredu yn y sefyllfa hon.

## Methiant i gydymffurfio

2.19 Os bydd yn ofynnol i ACLlau a phaneli sicrhau canran ofynnol o aelodau sy'n fenywod ac sy'n ddynion o fewn cyfansoddiad paneli (y gofyniad o ran cyfansoddiad), ac y ceir achos o fethiant i gydymffurfio â'r gofyniad, gellid rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i ACLlau gydymffurfio â'r gofyniad.

2.20 Os bydd ACLlau/Paneli yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gellid rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru weithredu yn lle'r ACLlau sy'n rhan o'r Panel/Paneli a phenodi aelod benywaidd neu wrywaidd.

2.21 Gallai hefyd fod yn ofynnol i'r Paneli lunio adroddiad a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru os na chaiff y gofyniad o ran cyfansoddiad ei fodloni ar unrhyw adeg, gan roi rhesymau pam na lwyddwyd i gydymffurfio.

## Trefniadau gweithredu ymarferol a gwaith modelu

2.22 Gwnaed gwaith modelu er mwyn pennu p'un a ellid cyflawni dyletswydd statudol o 40% (Awst 2015). Mae'r gwaith modelu yn nodi y gellid cyflawni'r targedau o sicrhau bod 40% o aelodau ACLI y Panel yn fenywod a bod 40% ohonynt yn ddynion yn y tair ardal enghreifftiol fel y saif ar hyn o bryd. Nodir manylion yn Atodiad C er gwybodaeth.

## Dilysrwydd

2.23 Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth<sup>5</sup> sy'n sicrhau na fydd swydd wag ymhlith aelodau'r Panel neu ddiffyg wrth benodi aelod yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a gyflawnir gan y Panel. Mae hyn yn berthnasol os na chyflawnir y ganran ac os na ellir bodloni'r pwerau o ran eithriadau, bydd gwaith y Panel a'r CDS ei hun yn parhau'n ddilys. Bydd hyn yn sicrhau nad effeithir ar benderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan ACLlau nac ar apeliadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

---

<sup>5</sup> Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 14(4)

## Cwestiynau

1. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bellach a fyddai'n ategu'r dull gweithredu a gynigir, yn arbennig dystiolaeth ar benodiadau gan awdurdodau lleol i gyrff cyhoeddus tebyg?
2. Ydych chi'n gwybod am dystiolaeth bellach am nifer y menywod a benodwyd gan awdurdodau cynllunio lleol i gyrff cyhoeddus?
3. Ydych chi o blaid cynnwys canran ofynnol ar gyfer menywod a dynion ar Baneli?
4. Ydych chi'n cytuno y dylid pennu canran o 40%, ac os nad ydych, pam hynny? Ydych chi o'r farn y byddai canran amgen yn fwy priodol ac os felly, pam hynny?
5. Ydych chi o'r farn y gall ACLlau gydweithio i nodi cydbwysedd priodol o ran aelodau neu a ddylid pennu dull gweithredu mwy penodedig?
6. Pe na chydymffurfiwyd â'r gofyniad o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau, sut y gellid ymdrin â hyn?
7. Ydych chi'n meddwl y dylai Gweinidogion Cymru allu ymyrryd mewn achosion o fethu â chydymffurfio drwy benodi aelodau o ACLlau i baneli?
8. Oes unrhyw ddulliau eraill y gellid eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiad â'r gofyniad o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau? Os felly, sut y byddai hynny'n gweithredu?
9. Ydych chi o'r farn y gellid cyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn modd amserol heb ofyniad cwota?
10. Yn eich barn chi, beth yw'r rhesymau pam nad yw menywod wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn cyrff cyhoeddus megis Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff tebyg eraill (gweler y cyrff y cyfeirir atynt yn Atodiad A).

### 3. Materion Ariannol

#### Y sefyllfa bresennol

- 3.1 Bydd cyflwyno trefniadau cynllunio strategol yn golygu y gellid ymdrin â materion sydd yn aml yn rhwystro ac yn oedi'r gwaith o lunio CDLlau yn fwy effeithiol. Dylai'r ffaith y caiff CDLlau llai manwl eu mabwysiadu'n amserol wedi hynny arwain at arbedion adnoddau i ACLlau yn ogystal ag osgoi achosion o ddyblygu gwaith technegol a darparu cyfleoedd i gyfuno adnoddau. Cynhaliwyd dadansoddiad o gostau a buddiannau fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf<sup>6</sup>.

#### *Darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*

- 3.2 Mae adrannau perthnasol y Ddeddf fel a ganlyn:
- Rhan 3, adrannau 4 i 9 - Cynllunio Strategol
  - Atodlen 1, paragraffau 16 ac 19 - Materion Ariannol
- 3.3 Mae Rhan 3, Atodlen 1 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer trefniadau ariannol Paneli. Mae'n nodi'r gweithdrefnau, gan gynnwys:
- manylion am wariant cymwys;
  - pennu rhaglen waith flynyddol;
  - y dyddiadau terfynol ar gyfer gwneud taliadau;
  - taliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys grantiau a benthyciadau (lle y bo'n briodol);
  - cyfrifon a gofynion archwilio;
  - gofynion o ran adroddiadau blynyddol;
  - diffinio blwyddyn ariannol.
- 3.4 Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y materion ariannol a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, y nodir eu manylion yn yr adran gweithdrefnau ariannol isod.

#### *Gweithdrefnau ariannol*

- 3.5 Gwariant cymwys yw'r gwariant sydd ei angen i ariannu Panel a delir gan yr ACLlau sy'n rhan o'r Panel hwnnw. Mae ei angen er mwyn gallu ymgymryd â phob agwedd ar y broses o lunio CDS ac er mwyn sicrhau y gall y Panel redeg yn effeithlon ac yn effeithiol.
- 3.6 Caiff gwariant cymwys Paneli Cynllunio Strategol (Paneli) ei ariannu a'i bennu gan yr ACLlau sy'n rhan o'r Paneli ar sail gyfrannol rhwng yr ACLlau hynny. Bydd yn seiliedig ar raglen waith flynyddol y mae'n rhaid iddi nodi gweithgareddau'r Panel ar gyfer y flwyddyn honno; caiff ei

---

<sup>6</sup> <http://llyw.cymru/topics/planning/legislation/planningbill-old/explanatory-memorandum/?lang=cy>

llunio erbyn 31 Rhagfyr cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a rhaid ymgynghori arni gyda'r ACLlau sy'n rhan o'r Panel a Gweinidogion Cymru.

- 3.7 Yn dilyn yr ymgynghoriad, caiff y ffigur y cytunwyd arno ar gyfer gwariant cymwys a'r rhaglen waith derfynol eu cyhoeddi a'u hanfon at yr ACLlau sy'n rhan o'r Panel a Gweinidogion Cymru erbyn 15 Chwefror cyn y flwyddyn ariannol berthnasol fan bellaf.
- 3.8 Mae'n bosibl y bydd angen i'r Panel ymgymryd â gwaith nas rhagwelwyd, felly cynigir y gall fod angen i Banel, ar unrhyw adeg o fewn blwyddyn ariannol, ddiwygio ei raglen waith a'r swm o ran gwariant cymwys, a rhaid iddo hysbysu'r ACLlau sy'n rhan o'r Panel a Gweinidogion Cymru os bydd angen unrhyw waith diwygio. Unwaith y pennir y ffigur terfynol, rhaid i'r ACLlau dalu'r costau hyn a rhaid cyhoeddi'r rhaglen waith.
- 3.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cychwynnol i sefydlu Panel a bydd ganddi'r pŵer i gynnig grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill i'r Panel o fewn amodau penodedig. Ni all y Panel fenthyg arian oni fydd yr arian hwnnw gan Weinidogion Cymru.
- 3.10 Mae'n ofynnol i'r Panel gadw cyfrifon cywir a datganiad o'r cyfrifon hyn ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid eu cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, yr ACLlau sy'n rhan o'r Panel a Gweinidogion Cymru erbyn 30 Tachwedd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol fan bellaf. Wedyn, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystyried y datganiad cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad arno o fewn pedwar mis o'r adeg y cyflwynwyd y dogfennau.
- 3.11 Bydd y Panel o fewn cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnybuddiaeth Ariannol; mae hyn yn golygu mai'r Panel Annibynnol fydd yn pennu ystod a lefel y lwfansau sy'n daladwy gan y Panel a'r awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhan o'r Panel i'w haelodau.
- 3.12 Nodir y rhan fwyaf o'r materion ariannol ar gyfer Panel ar wyneb y Ddeddf a dim ond y diffiniad o wariant cymwys ac addasu taliadau a bennir mewn rheoliadau a fydd yn berthnasol i bob Panel. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu hyblygrwydd ac yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau o ran swyddogaethau a gweithdrefnau o fewn llywodraeth leol.
- 3.13 Er bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i bennu addasiadau i'r taliadau a wneir gan yr ACLlau sy'n rhan o Baneli drwy reoliadau, nid ydynt yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd ond caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd. Gall rheoliadau gynnwys darpariaeth y gellid ei defnyddio yn y dyfodol, os ystyrir bod angen gwneud hynny.

## Ein cynigion

### **Diffiniad o Wariant Cymwys**

3.14 Rydym o'r farn bod yn rhaid i'r awdurdodau sy'n rhan o'r Panel dalu'r costau sy'n ymwneud â swyddogaethau canlynol y Panel:

- Costau staff, gan gynnwys cyflog, pensiwn, diswyddo, adnoddau dynol, ffioedd proffesiynol, teithio a chynhaliaeth ac ati;
- Archwilio a Chyfrifon;
- Cydnabyddiaeth ariannol staff ac aelodau enwebedig;
- Prydlesau/rhenti a chostau rhedeg swyddfeydd a manau ar gyfer ymgynghori, cynnal digwyddiadau ymgysylltu ac archwilio;
- Cyfarpar, gan gynnwys dodrefn, reprograffeg, TG a deunydd swyddfa;
- Costau archwilio, gan gynnwys costau swyddogion rhaglenni ac arolygwyr ac adnoddau cysylltiedig;
- Argraffu, dylunio a chartograffeg;
- Caffael gwaith technegol;
- Cyngor Cyfreithiol;
- Hyfforddiant i Staff ac Aelodau;
- Cyfieithu;
- Gwasanaethu a chynnal a chadw;
- Gwefan;
- Yswiriant.

3.15 Rydym o'r farn na ddylid ystyried y swyddogaethau canlynol fel gwariant cymwys:

- Cydnabyddiaeth ariannol aelodau awdurdodau lleol;
- Cyflogau'r Cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd;
- Costau staff ar gyfer aelodau enwebedig (heb gynnwys treuliau);
- Cydnabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig.

3.16 Cydnabyddir hefyd y gall fod agweddau nas rhagwelwyd ar weithgareddau'r Panel y byddai angen eu hariannu yn y dyfodol ac felly, dylai'r rheoliadau ddarparu hyblygrwydd er mwyn caniatáu i holl swyddogaethau'r Panel gael eu hariannu ar yr amod y gellir cyfiawnhau'r taliadau. Bydd hyn yn sicrhau y gall y Panel weithredu'n effeithiol.

### **Cwestiynau**

11. **Ydych chi'n cytuno â'r cynigion o ran yr hyn y gellid ei ystyried yn wariant cymwys?**
12. **Ydych chi o blaid y dull gweithredu a gynigir mewn perthynas ag addasu taliadau fel y'i nodir yn adran 3.13?**

13. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar yr Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ategu'r papur ymgynghori hwn?**

#### **4. Camau Nesaf**

- 4.1 Ar ôl dadansoddi'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried cyflwyno rheoliadau gyda'r bwriad y daw'r rheoliadau hynny i rym yn ystod gwanwyn 2016.



## Cyfeiriadau

- Cymdeithas Llywodraeth Leol; Cyfrifiad Cenedlaethol Cynghorwyr Awdurdodau Lleol 2013 - Lloegr
- Cyfrifiad Cenedlaethol Cynghorwyr Awdurdodau Lleol 2004 Cymru - trosolwg
- Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012
- Pwy sy'n rhedeg Cymru? Diweddariad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012, y daith tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Pwy sy'n rhedeg Cymru? 2014 Degawd coll - dim newid. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Datganiad ar y Cyd y Llywydd, 2014
- Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru Rhagfyr 2014; Lesley Griffiths, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
- Astudiaeth Achos Penodiadau Cyhoeddus Chwaraeon Cymru Rhagfyr 2012
- Diweddariad ar Astudiaeth Achos Penodiadau Cyhoeddus Chwaraeon Cymru Ebrill 2015
- Arolwg blynyddol o benodiadau ac ailbenodiadau gweinidogol i fyrddau cyrff cyhoeddus a reoleiddir gan y comisiynydd penodiadau cyhoeddus 2013-14
- Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus 2012-13
- Women on Board: Quality through Diversity, Ymgynghoriad gan Lywodraeth yr Alban ar gyflwyno cwtâu rhyw ar fyrddau cyhoeddus. 2014
- Overcoming Barriers to equality and diversity representation on public, private and third sector boards in Scotland. Y sefydliad ymchwil cyflogaeth, Prifysgol Napier Caeredin 2014
- Cyngor cenedlaethol y mudiadau gwirfoddol - fframwaith tryloywder. Cydymffurfio neu egluro'r broses
- Ar ôl pwyso a mesur: sicrhau democratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yng Nghymru - Adroddiad y grŵp arbenigwyr ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol 2014
- At ein gwasanaeth? Adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru.
- Welsh power report – women in public life. Mawrth 2013 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru.
- Deunydd cyfeirio - Spotlight on Wales – Women and local government
- [http://ec.europa.eu/justice/newsroom/gender-equality/news/121114\\_en.htm](http://ec.europa.eu/justice/newsroom/gender-equality/news/121114_en.htm)

## Atodiad A

### Data a Thueddiadau

Daw'r data a'r tueddiadau a nodir yma o'r adroddiadau yn yr adran cyfeiriadau.

#### Cynrychiolwyr benywaidd o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol

2014 - 27% o gynghorwyr, cynnydd o 23% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf

2013 - Menywod mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru:

	%
• Abertawe	39
• RhCT	37
• Caerdydd	37
• Torfaen	34
• Sir y Fflint	30
• Pen-y-bont ar Ogwr	30
• Sir Fynwy	30
• Bro Morgannwg	30
• Powys	29
• Caerffili	27
• Castell-nedd Port Talbot	27
• Casnewydd	26
• Conwy	25
• Sir Gaerfyrddin	24
• Gwynedd	24
• Sir Ddinbych	23
• Blaenau Gwent	16.6
• Sir Benfro	15
• Wrecsam	15
• Ceredigion	14
• Merthyr Tudful	12
• Ynys Môn	5

Ffynhonnell: Welsh Power Report, Women in Public Life Mawrth 2013

2013 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol:

Aelodau a benodwyd o awdurdodau lleol 15%

Aelodau a benodwyd drwy broses Penodiadau Cyhoeddus 45%

## Cynrychiolwyr benywaidd ar gyrff cyhoeddus

2013 Partneriaethau Menter Lleol (Lloegr)      Dynion 471    Menywod 117

2012 Prif weithredwyr Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 10%

2014 Prif weithredwyr Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 37%

2012 Aelodau Bwrdd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 31%

2014 Aelodau Bwrdd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 31%

2013/14 % y menywod a benodwyd ac a ailbenodwyd (datganwyd/hysbys)  
(DU) 39.3%

2013/14 % y menywod a benodwyd ac a ailbenodwyd (datganwyd/hysbys)  
(Cymru) 39.3%

## Ffigurau 2014

- Cabinet Llywodraeth Cymru 27% o fenywod
- Aelodau Seneddol 17% o fenywod
- Aelodau Senedd Ewrop 50% o fenywod
- Cynnydd o ran ASau benywaidd o 4 yn 2004 i 7 yn 2014.
- Mae 9% o arweinwyr cynghorau yng Nghymru yn fenywod
- Mae 27% o Gynghorwyr yn fenywod (cynnydd o 23% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf)
- Prif weithredwyr y prif Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 37%
- Aelodau Bwrdd y prif Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru 31%
- Mae 2% o brif weithredwyr y 50 Cwmni mwyaf yng Nghymru yn fenywod
- Mae 18% o brif weithredwyr llywodraeth leol yng Nghymru yn fenywod

## Atodiad B

### Enghreiffiau o wahanol ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar gyrff cyhoeddus

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos gwahanol ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar gyrff cyhoeddus ac yn tynnu sylw at y polisi sy'n dod i'r amlwg yn y DU ac yn Ewrop er mwyn cyflawni hyn.

#### Norwy

- 1) Cydnabyddir profiad Norwy fel dull llwyddiannus o sicrhau bod 40% o gyfarwyddwyr cwmnïau cyhoeddus yn fenywod ac wrth ddefnyddio system gosbi lle y gellir diddymu cwmni am fethu â chydymffurfio

#### Yr Almaen

- 2) Mae'r Almaen yn pennu cwota i sicrhau y bydd 30% o aelodau byrddau cwmnïau rhestredig yn fenywod, a gaiff ei gyflwyno'n raddol rhwng 2016 a 2020, gyda chosbau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau adael swyddi heb eu llenwi os na allant benodi menywod iddynt.

#### Ewrop

- 3) Ym mis Tachwedd 2013, pleidleisiodd Senedd Ewrop o blaid cyfraith ar gyfer cwotâu gorfodol. Nid yw'r gyfraith hon wedi'i deddfu eto a chynhelir pleidlais arall arni maes o law. Nid yw Llywodraeth y DU yn cefnogi'r gyfarwydddeb hon: *"it is our view that EU-wide legislative action at the present time is unnecessary, and could be counter-productive to the Commission's stated aim of increasing gender diversity on boards"*<sup>7</sup>.

Mae'r tabl hwn yn dangos y mesurau cenedlaethol i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar fyrddau yn Ewrop ym mis Ionawr 2013.

Gwlad	Dull Gweithredu	% os oes data ar gael	Math o Gorff	Cosbau
Awstria	Targedau nad ydynt yn gyfrwymol	25% (2013) 35% (2018)	--	--
Denmarc	Targed Gwirfoddol	--	Y cwmnïau mwyaf	--

<sup>7</sup> Subsidiarity assessment: Gender balance on boards report, Tŷ'r Arglwyddi, Rhagfyr 2012

Groeg	Cwota	Traean	Cwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth	--
Gwlad Belg	Cwota	--	2012 - Cwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth 2017 - cwmnïau rhestredig 2019 - busnesau bach a chanolig rhestredig	Bydd penodiadau yn annilysoni fodlonir y cwota
Gwlad Pwyl	Cod Llywodraethu Corfforaethol	Cyfran gytbwys	Byrddau rheoli a byrddau goruchwyliol	Gofyniad i gyflwyno adroddiad
Ffrainc	Cwota	20% (2014) 40% (2017)	Cwmnïau rhestredig a chwmnïau nad ydynt yn rhestredig	--
Lwcsembwrg	Cod Llywodraethu Corfforaethol	--		--
Portiwgal	Cynlluniau Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau	Cydbwysedd rhwng y Rhywiau	Cwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth	--
Sbaen	% ar gyfer y ddau ryw	40% (2015)	Cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus â 250 neu fwy o gyflogeion	--
Slofenia	% ar gyfer y ddau ryw	40%	Cwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth, Mentrau cyhoeddus ac endidau eraill sy'n ddarostyngedig i gyfraith gyhoeddus. Byrddau rheoli a byrddau goruchwyliol	--
Sweden	Cod	--	Cwmnïau	Cydymffurfio

	Llywodraethu Corfforaethol		rhestredig	neu egluro
Y DU	Gwirfoddol	Argymhelliad yr adroddiad yw 25% o gwmnïau sydd wedi'u rhestru ar FTSE 100 Pennu targedau eu hunain, cwmnïau FTSE 350	Cwmnïau sydd wedi'u rhestru ar FTSE 100 Cwmnïau FTSE 350	--
Y Ffindir	Rheoleiddio cyfran gyfatebol o ddynion a menywod	--	Cwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth	--
Yr Almaen	Targedau Gwirfoddol	--	Byrddau goruchwyliol ar gyfer cwmnïau rhestredig	
Yr Eidal	% ar gyfer y ddau ryw	O leiaf 33% (2015) 20% cyfnod trosiannol	Cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus a chwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth	System rybuddio a diddymu'r bwrdd yn y pen draw
Yr Iseldiroedd	Cod Llywodraethu Corfforaethol	--	Byrddau gweithredol a byrddau goruchwyliol cwmnïau mawr	Cydymffurfio neu egluro

Nid oes gan y gwledydd hynny nas rhestrir fesurau ar waith. Deunydd cyfeirio: [http://ec.europa.eu/justice/newsroom/gender-equality/news/121114\\_en.htm](http://ec.europa.eu/justice/newsroom/gender-equality/news/121114_en.htm)

#### Yr Alban – Women on Board: Quality through Diversity

- 4) Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ar gyflwyno cwtâu rhyw ar fyrddau cyhoeddus. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Gorffennaf 2014. Nod yr ymgynghoriad yw llywio'r ffordd y bydd Llywodraeth yr Alban yn llunio ei chynigion i Lywodraeth y DU mewn perthynas â defnyddio deddfwriaeth i sicrhau cydbwysedd rhwng y

rhywiau ar fyrddau cyrff cyhoeddus, drwy ddefnyddio cwotâu gorfodol ar gyfer nifer y menywod sy'n aelodau o fyrddau cyhoeddus. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried targed Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod byrddau cyhoeddus yn cynnwys o leiaf 40% o fenywod.

## Atodiad C Modelu

Nifer y Cyngorwyr benywaidd o fewn ardaloedd Paneli enghreifftiol. Defnyddiwyd yr ardaloedd enghreifftiol hyn drwy gydol y broses o graffu ar y Ddeddf; o fewn Dogfen Ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol 2013 a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rhanbarth De-ddwyrain Cymru:

<b>Awdurdod</b>	<b>Nifer Gyffredinol</b>	<b>Nifer o Ddynion</b>	<b>Nifer o Fenywod</b>	<b>% o Ddynion</b>	<b>% o Fenywod</b>
Caerdydd	75	47	28	62.7	37.3
Bro Morgannwg	47	34	13	72.3	27.7
Pen-y-bont ar Ogwr	54	38	16	70.4	29.6
Rhondda Cynon Taf	75	46	29	61.3	38.7
Merthyr Tudful	33	27	6	81.8	18.2
Caerffili	70	50	20	71.4	28.6
Torfaen	44	33	11	75	25
Blaenau Gwent	42	35	7	83.3	16.7
Casnewydd	50	37	13	74	26
Sir Fynwy	43	30	13	69.8	30.2



Rhanbarth Abertawe:

<b>Awdurdod</b>	<b>Nifer Gyffredinol</b>	<b>Nifer o Ddynion</b>	<b>Nifer o Fenywod</b>	<b>% o Ddynion</b>	<b>% o Fenywod</b>
Abertawe	72	45	27	62.5	37.5
Castell-nedd Port Talbot	64	46	18	71.9	28.1
Sir Gaerfyrddin	74	53	21	71.6	28.4

Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Cymru:

<b>Awdurdod</b>	<b>Nifer Gyffredinol</b>	<b>Nifer o Ddynion</b>	<b>Nifer o Fenywod</b>	<b>% o Ddynion</b>	<b>% o Fenywod</b>
Sir Ddinbych	47	36	11	76.6	23.4
Conwy	59	43	16	72.9	27.1
Wrecsam	52	45	7	86.5	13.5
Sir y Fflint	70	51	19	72.9	27.1